# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 25 Chwefror 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Llysgenhadaeth Cyntaf Cymru Dramor

**C12 David Davies:** Pa ddyddiad sydd wedi ei bennu ar gyfer agor llysgenhadaeth cyntaf Cymru dramor? (OAQ22617)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Er yr ymddengys bod y Ceidwadwyr yn hybu'r syniad hwn yn gyson, nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad unrhyw gynlluniau i agor llysgenadaethau gartref na thramor.

### Effaith Polisïau'r Llywodraeth ar Fyfyrwyr

**C13 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effeithiau polisïau ei Lywodraeth ar fyfyrwyr yng Nghymru? (OAQ22595)

**Y Prif Weinidog:** Lles myfyrwyr oedd blaenoriaeth bennaf ein holl ddatblygiadau ym myd addysg uwch. Cefnogwn sefydliadau Cymru yn eu hymgais i gynnig profiad o'r radd flaenaf, ac yr ydym yn gweithio i ddileu rhwystrau i addysg uwch—rhwystrau ariannol, drwy gynllun grant dysgu'r Cynulliad, a rhwystrau o ran dirnadaeth, drwy waith ehangu mynediad.

### 'Cynllun i Gymru 2001'

**C14 Janet Davies:** Pa effaith a gafodd y camau i weithredu'r mesurau a geir yn 'Cynllun i Gymru 2001' ar Orllewin De Cymru? (OAQ22597)

**Y Prif Weinidog:** Y mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gael effaith bositif ar Orllewin De Cymru, fel y gwnânt ym mhob rhanbarth yng Nghymru.

Er enghraifft, hyd yn hyn, gwnaethom 56 o gynigion cymorth rhanbarth dewisol yn y flwyddyn ariannol gyfredol, sef cyfanswm o dros £38 miliwn, gan ddiogelu mwy na 2,000 o swyddi newydd a chreu dros 350.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ22606) yn ôl.*